HMIC Inspecting policing in the public interest

## Heddlu Gogledd Cymru...

Mae Gogledd Cymru yn un o'r llefydd mwyaf diogel i fyw yn y Deyrnas Unedig. Ardal wledig ydyw yn bennaf gyda sawl ardal o harddwch naturiol eithriadol sy'n denu nifer fawr o ymwelwyr, megis Parc Cenedlaethol Eryri. Mae yng Ngogledd Cymru chwech Awdurdod Lleol a chaiff materion datganoledig eu goruchwylio gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag yn wahanol i sectorau cyhoeddus eraill nid yw plismona wedi'i ddatganoli. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o'n diwylliant ac fe'i siaredir gan 204,406 o bobl, sydd wedi'i adlewyrchu yn ein gweithlu a'n harferion gwaith.

Mae mwyafrif helaeth y boblogaeth o 688,937 wedi'i chanoli o amgylch Wrecsam a Glannau Dyfrdwy ac ar hyd y llain arfordirol sy'n cynnwys trefi fel y Rhyl, Llandudno a Bangor. Yn y mannau poblog hyn ceir ardaloedd o amddifadiad cymdeithasol ond maent hefyd yn bodoli yn yr ardaloedd gwledig eang, yn arbennig yn y trefi a'r pentrefi chwarelu lle mae'r diwydiant bellach fwy neu lai wedi darfod. Mae gwasanaethu'r ardaloedd gwledig hyn yn heriol o ganlyniad i'r ffyrdd a'r pellteroedd teithio. Mae yma ddwy brifysgol, un yn Wrecsam ac un ym Mangor ac maent yn gartref i boblogaeth fywiog o 25,475 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn academaidd. Yn cysylltu'r ardal â seilwaith draffyrdd Lloegr mae ffordd gyflym yr A55 sy'n bwydo porthladd Caergybi, yr ail brysuraf o borthladdoedd y DU sy'n creu ei alwadau ei hun o ran materion plismona'r ffyrdd.

Mae'r 397,162 o alwadau am wasanaeth a geir bob blwyddyn yn adlewyrchiad o'n llwyth gwaith. Rydym yn ymdrin â mathau niferus o droseddau sy'n amrywio o grwpiau troseddau trefnedig i droseddau cefn gwlad. Ers 2011 mae troseddau seiliedig ar ddioddefwyr yng Ngogledd Cymru wedi gostwng 12.9% ond mae'r galw trwm a chynyddol ar y gwasanaeth o ganlyniad i drais domestig, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth modern a throseddau seiber yn golygu y bu'n rhaid symud adnoddau i dimau arbenigol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae toriadau pellach o £24 miliwn yn y gyllideb yn cymhlethu pethau fwy fyth. Mae adolygiad o effeithiolrwydd ar y gweill a bydd y ffordd yr aiff yr heddlu ati i addasu i'r tirlun newidiol hwn yn seiliedig ar gasgliadau'r adolygiad hwnnw.

## HMIC...

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau plismona i ardaloedd Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Mae ardal yr heddlu yn cwmpasu 2,375 milltir sgwâr gydag oddeutu 450 milltir o arfordir yng ngogledd Cymru. Er bod yna rai ardaloedd mwy cefnog, mae gan Ogledd Cymru lefel uchel o dlodi. Mae tua 0.7 miliwn o bobl yn byw yn y lleoliad gwledig yn bennaf. Mae ei nifer o ardaloedd trefol penodol a bychan yn cynnwys tref Wrecsam. Mae'r boblogaeth leol wedi ei chynyddu gan fyfyrwyr prifysgol a'r nifer fawr o bobl sy'n ymweld neu'n teithio trwy'r ardal pob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafnidiaeth hefyd yn cynnwys porthladd pwysig.

Mae Cymru a Lloegr yn cynnwys dros 181,000 o ardaloedd bach a elwir yn ardaloedd allbwn cyfrifiad (OAs). Mae'r rhain wedi eu diffinio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i grwpio pobl gyda nodweddion tebyg ynghyd ac i gynnwys, ar gyfartaledd, 125 o gartrefi. Mae maint yr ardal ddaearyddol a gwmpasir gan bob OA yn amrywio yn ôl dwyster y boblogaeth mewn gwahanol rannau o'r wlad. Mae'r OA mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn cwmpasu 20,166 hectar, ac mae'r lleiaf yn llai na 0.02 hectar. Mae cae pêl-droed yn oddeutu 0.75 hectar.

Mae yna 2,286 OA yng Ngogledd Cymru gyda maint cyfartalog o 269 hectar sy'n llawer mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o 87 hectar. Mae dau o bob pump (39 y cant) o'r OAs yng Ngogledd Cymru yn gymharol fach dan 10 hectar ac mae chwarter (25 y cant) yn fawr iawn o ran maint (dros 100 hectar) gan ddynodi natur bennaf wledig yr ardal. Mae'r OAs lleiaf wedi eu crynodi yn y nifer o drefi bach gyda'r lledaeniad mwyaf o amgylch yr ardaloedd gwledig a mynyddig gyda'u poblogaeth wasgarog.

Mantais dadansoddiad ar lefel ardal allbwn yw ei fod yn cefnogi ymagwedd sy'n ffocysu ar yr unigolyn. Mae gwahaniaethau yn nodweddion economaidd gymdeithasol pobl sy'n byw mewn gwahanol OAs yn arwain at wahanol ymddygiadau, yn cynnwys defnydd o wasanaethau cyhoeddus. Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn yr wybodaeth a gesglir mewn setiau data mawr fel y cyfrifiad, data pwyntiau diddordeb yr Arolwg Ordnans a ffynonellau lled-economaidd eraill a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn.

Mae HMIC wedi bod yn gweithio gyda'r London School of Economics i ddefnyddio technegau econometreg i fodelu'n ystadegol ac i ragweld y lefel o alwadau adweithiol ar gyfer gwasanaethau'r heddlu ym mhob OA yng Nghymru a Lloegr. Gan ddefnyddio data digwyddiadau'r heddlu a nifer o filoedd o nodweddion (newidynnau) o ddata'r cyfrifiad, data pwyntiau diddordeb OS a setiau data eraill llai ar gyfer pob OA, mae wedi bod yn bosibl rhagweld y nifer o ddigwyddiadau ar gyfer pob OA ac i bennu pa mor heriol mae'n debygol fydd pob OA i'r heddlu. Rydym hefyd wedi

defnyddio prisiau tai o'r Gofrestrfa Tir fel dynodwr dirprwyol o gyfoeth. Mae gan Ogledd Cymru bris tai cyfartalog o £152,039 sy'n is na chyfartaledd Cymru a Lloegr (£254,549. Ac eithrio'r deg y cant lleiaf drud a'r deg y cant mwyaf drud o'r prisiau tai, mae yna wahaniaeth o 60 y cant rhwng y prisiau isel ac uchel yn ardal yr heddlu, sy'n adlewyrchu tlodi'r ardal.

Mae'r nifer a ragwelir o ddigwyddiadau ar gyfer pob OA yn amrywio'n sylweddol. Yng Ngogledd Cymru, mae un y cant o'r OAs yn atebol am 13 y cant o'r galwadau mae'r heddlu yn eu gwasanaethu – mae hyn yn 0.1 y cant o gyfanswm ardal yr heddlu.

Mae crynodiad o alwadau a ragwelir mewn nifer fechan o OAs yn nodwedd o bob heddlu. Rydym wedi dynodi'r OAs hyn (oddeutu 1,800 ledled Cymru a Lloegr) fel her sylweddol iawn i'r heddlu. Mae'r meysydd hyn o her wedi eu nodweddu gan amddifadedd cymdeithasol neu grynodiad o eiddo masnachol (yn cynnwys eiddo trwyddedig), ac mewn rhai achosion y ddau.

O fewn Gogledd Cymru:

- mae'r gyfran o OAs sy'n her fawr iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel a ragwelir o droseddu yn gyffredinol yn unol â'r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae'r gyfran o OAs sy'n her fawr iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel a ragwelir o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredinol yn unol â'r lefel genedlaethol o un y cant; ac
- mae'r gyfran o OAs sy'n her fawr iawn i'r heddlu ar gyfer y lefel a ragwelir o alwadau argyfwng a blaenoriaeth ar gyfer cymorth yn gyffredinol yn unol â'r lefel genedlaethol o un y cant.
- Fel arwydd o'r her i'r heddlu gyrraedd dinasyddion ym mhob rhan o Ogledd Cymru, fe gyfrifom gyfartaledd yr amser teithio a phellter o bwynt canolog ardal yr heddlu i ganol pob un o'r 2,286 OA. Mae'r cyfrifiadau pellter ac amser hyn yn seiliedig ar ddefnyddio'r rhwydwaith ffordd dan amodau a chyflymder gyrru arferol ac yn dynodi maint yr ardal ac ansawdd ei rwydwaith ffyrdd.

Mae gan Ogledd Cymru 169 milltir o draffyrdd a phriffyrdd; mae'r pellter teithio cyfartalog o 31 milltir (yr hiraf yw 72 milltir a'r byrraf yw 2 filltir) ac mae'r cyfartaledd amser teithio o 52 munud yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol cymharol o 17 milltir a 30 munud. Mae hyn yn arddangos maint a thopograffeg Gogledd Cymru a natur ei ffyrdd.

Er y gallai'r crynodiad o alwadau mewn nifer fechan o leoliadau (yn cwmpasu ardal fechan iawn) fod yn ddefnyddiol o ran ffocysu adnoddau, nid hyn yw cyfanswm y galw. Mae darpariaeth gwasanaethau yn ymestyn tu hwnt i'r ardaloedd hynny sy'n her sylweddol i'r heddlu ac yn cynnwys yr ardaloedd mwyaf heriol a mwyaf gwledig. Mae'r her o ddarparu gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru yn swyddogaeth i

nifer o bethau, yn cynnwys maint a thopograffi'r ardal, y rhwydwaith ffyrdd a pha mor dagfaol yw'r ffyrdd. Mae'r ystyriaethau hyn yn dylanwadu ar sut y trefnir a rheolir adnoddau'r heddlu – er enghraifft, ble mae swyddogion yr heddlu wedi eu lleoli a'u patrymau gwaith.